



AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG PROSIECT GWEITHREDU FFORDD CYMRU 2018–19

Gosodiad celf – mainc ddehongli mewn golygfan Briff Artist

28 Ionawr 2019

1.0 Cyflwyniad

Gyda chyllid gan Croeso Cymru, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dymuno creu cyfres o weithiau ar hyd yr A470, sy'n rhedeg drwy'r Parc Cenedlaethol, a hynny gyda chymorth a chydweithrediad gan bartneriaid. Mae'r briff artist hwn yn ystyried un o'r rhain, sef mainc ddehongli artistig.

2.0 Amcanion y prosiect

- Lle i eistedd a gwerthfawrogi'r olygfa
- Eitem addysgiadol sy'n ysgogi meddyliau ac yn dathlu'r lle
- Helpu ymwelwyr i wybod ble maen nhw
- Cyfleu ymdeimlad o le

3.0 Briff ar gyfer mainc ddehongli mewn golygfan

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dymuno comisiynu gosodiad mainc ddehongli artistig i annog defnyddwyr yr A470 sy'n cymryd saib yng nghilfan Craig y Fro i eistedd, gwerthfawrogi'r olygfa a dysgu amdani. Bydd yn nodwedd untro yn gyfagos i arwydd carreg dywod arfaethedig a fydd â cherddi wedi'u comisiynu'n arbennig gan Owen Sheers ac Ifor ap Glyn wedi'u cerfio arno.

Disgrifiad: Eitem wedi'i cherflunio ac yn esthetig chwaethus sy'n dathlu ac yn cyfleu'r ymdeimlad digamsyniol o le mewn perthynas â Chraig y Fro a Glyn Tarell o fewn Bannau Brycheiniog. Gallai gynnwys rai o'r geiriau a gyfansoddiwyd gan Owen Sheers (Saesneg) ac Ifor ap Glyn (Cymraeg) ar gyfer y lleoliad. Bydd angen rhoi llawr caled/graeon oddi tan draed pobl er mwyn osgoi pyllau dŵr.

Lleoliad cyffredinol: Cilfan ar ochr ddwyreiniol yr A470 sy'n edrych dros Lyn Tarell ac a adnabyddir yn lleol fel 'cornel y beicwyr' Cyfeirnod grid: 972209



Lleoliad manwl:

Mae hyd sylweddol o dir garw ar hyd ymyl y gilfan hon y gellid lleoli'r fainc arno ac felly mae sawl opsiwn o ran union lleoliad y sedd. Dylai ei lleoliad gael ei bennu'n rhannol gan ei hamlygrwydd o'r lôn gerbydau gan y byddai'n well i'r sedd fod ar ei mwyaf amlwg o'r gogledd ac i yrwyr ceir sy'n teithio ar hyd ochr ddwyreiniol y ffordd.



Dimensiynau:

Tua 4,500mm o hyd, 800mm – 1,500mm o ddyfnder. Mae'r rhain a dimensiynau eraill yn dibynnu ar fanylion y cynllun.

Deunydd a chynllun:

Adeiledd cadarn, wedi'i adeiladu yn ôl pob tebyg gyda cherrig sy'n nodweddiadol o'r ardal, sy'n gallu gwrthsefyll tywydd anwadal – ystod

tymheredd o -5°C hyd at 24°C a glawiad hyd at 100mm – a'r tebygolrwydd o fandaliaeth. Bydd yn nodwedd barhaol a ddylai fod yn ychwanegiad i'w groesawu i'r dirwedd.

Cefndir: Mae'r gilfan hon, a adnabyddir hefyd fel 'biker's corner', yn fan poblogaidd i bobl gymryd saib a mwynhau'r rhan hon o Lyn Tarell a'r golygfeydd trawiadol i fyny ac i lawr y cwm. Cafodd y cwm siâp U nodweddiadol hwn ei ffurfio o ganlyniad i gyfnod o rewlifant a ddaeth i ben oddeutu 18,000 o flynyddoedd yn ôl. Yn ôl pob tebyg, cafodd y marianau sydd wedi'u gwasgaru ar hyd gwaelod y dyffryn eu creu gan sawl 'tirlithriad' pan symudodd tomenni o greigiau a cherrig a sadio yno wedi i'r rhewlifoedd gerfio ochrau rhy serth a gadael twmpathau o waddod ansefydlog.

Disgrifiad Geoparc Fforest Fawr: Dyma, o bosibl, y profiad eithaf o'r Oes lâ ar fin y ffordd. Mae'r A470 wedi cael ei thorri drwy'r mynyddoedd o weddillion (**marian rhewlifol**) a gafodd eu gadael gan yr iâ wrth iddo doddi. Mae daearegwyr yn dal i ddadlau am bwysigrwydd perthnasol **cwympiadau tîr** a gweithgaredd rhewlifol o ran ffurfio'r nodweddion tirwedd ar y safle hwn.

Mae'r gilfan hon yn cael ei hadnabod fel 'Craig y Fro' ar ôl darren hir a gerfiwyd gan iâ rhewlifol, sy'n ffurfio cefndir trawiadol y tu ôl iddi. Cloddiwyd y fan lle mae rhaeadr yn cwmpo ar ôl glaw gerllaw'r A470. Roedd yr hen fferm, sydd erbyn hyn yn furddun ger y wal i'r de-orllewin o'r gilfan, yn cael ei hadnabod fel 'Y Fro'. Gallwch weld yn glir y trawsnewidiad o lystyfiant mwy gwyrddlas gyda choed fan hyn a fan acw yn y dyffryn i dir mynyddig agored a moel yma.

Ystyriaethau: Dylai'r artist llwyddiannus ystyried sut i oresgyn y broblem bosib o bobl yn eistedd ar y fainc yn mwynhau'r olygfa wrth eistedd hefyd ar unrhyw ddehongliad ar yr un pryd!

Mynediad: Gellir cael mynediad drwy'r gilfan fawr ar ochr y ffordd, a hynny o'r gogledd yn unig yn y fan hon. Mae'n bosibl, bydd angen cau hon yn ystod gwaith adeiladu.

Cam I o'r comisiwn: Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gofyn am artist i ddatblygu **tri chynnig** a chyflwyno amlinelliad ohonynt yn ystod **hyd at ddau gyfarfod ymgynghori**. Bydd yr arlunydd wedyn yn datblygu'r dewis mwyaf poblogaidd fel cysyniad i'w gyflwyno fel cais cynllunio erbyn **18 Ebrill 2019**.

Mae **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dymuno comisiynu'r cam cyntaf hwn yn unig** ar yr adeg hon.

Ffi ar gyfer Cam I: £800

Cam 2 o'r comisiwn: Yn amodol ar gyflawni caniatâd cynllunio, bydd yr arlunydd yn datblygu'r cysyniad yn llawn ac yn cynnwys dyluniadau manwl a'r holl gynlluniau, ynghyd â dadansoddiad o'r costau i'w gynhyrchu, a bydd yn gosod y gwaith trwy ddilyn y safonau esthetig ac iechyd a diogelwch uchaf posibl.

Ffi ar gyfer Cam 2: £10,000 yn cynnwys yr holl gostau

Cyfrifoldebau: Bydd yr arlunydd sy'n cael ei ddewis yn gwneud y canlynol:

- bod yn gyfrifol am sicrhau bod y gosodiad yn cyd-fynd â holl gyfyngiadau iechyd a diogelwch ac yn cyflenwi Datganiad Dull i'r perwyl hwn
- meddu ar Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a Chynnyrch hyd at uchafswm indemniad o £5 miliwn ac Yswiriant Indemniad Proffesiynol hyd at uchafswm o £5 miliwn
- ystyried effaith amgylcheddol a darparu datganiad yn sôn am sut y bydd yn lleihau hyn
- bod yn brofiadol o ran cymryd rhan mewn sesiynau ymgynghori ac yn fodlon esbonio'r opsiynau ar gyfer y fainc ddehongli i aelodau o'r cyhoedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- gwirio'r holl geblau a chyfleustodau dan ddaear a threfnu llwybrau newydd ar eu cyfer pe bai angen
- trefnu gweithdrefnau cau ar gyfer y gilfan
- ymgymryd ag ymchwiliad ac adroddiad peiriannydd adeiladu pe bai angen

Y broses ddethol: Bydd panel o staff a phartneriaid Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dewis tri arlunydd i ddatblygu cynigion ar gyfer mainc ddehongli. **Bydd y tri artist sydd ar y rhestr fer yn derbyn £200 yr un i lunio'r cynigion hyn.** Byddant yn cael eu gwahodd i ddod am gyfweiliad ar neu o gwmpas 5 Mawrth 2019.

Datganiadau o ddiddordeb a dethol: Dylai arlunwyr sydd â diddordeb gyflwyno'r canlynol:

- CV wedi'i ddiweddarau
- enghreifftiau o gomisiynau tebyg ar ffurf hyd at ddeg llun digidol mewn dogfen PDF neu gyflwyniad PowerPoint. Dylai'r holl waith gael ei rifo a chynnwys teitl, dyddiad, dimensiynau a chyfrwng
- disgrifiad – uchafswm o 250 gair yn dangos eich dealltwriaeth o'r briff a sut y byddech yn mynd ati i droi syniad yn brosiect sydd wedi'i wireddu'n llawn
- uchafswm o 250 gair yn esbonio pam rydych yn dymuno cael eich comisiynu
- dau lythyr o gefnogaeth mewn perthynas â'r prosiect hwn

Pan fyddwch yn anfon ffeiliau mawr (dros 5MB), rhowch hyperddolenni i ffeiliau ar-lein neu anfonwch nhw drwy WeTransfer. Ni fydd gwybodaeth a gyflwynir ar ffurfiau eraill yn cael ei derbyn

Amserlen:	Briff yr arlunydd ar gyfer datganiadau o ddiddordeb	28/1/19
	Dyddiad cau ar gyfer datganiadau o ddiddordeb	15/2/19
	Rhoi gwybod i'r arlunwyr sydd ar y rhestr fer	19/2/19
	Cyfweliadau i drafod syniadau cychwynnol	ar neu o gwmpas 5/3/19
	Rhoi gwybod i'r arlunydd dethol	ar neu o gwmpas 6/3/19
	Cyflwyno caniatâd cynllunio	18/4/19
	Penderfyniad cynllunio	18/6/19
	Gosod y gwaith yn amodol ar ganiatâd cynllunio	1/12/19

Trefniadau ar gyfer datganiadau o ddiddordeb:

Cyflwynwch eich datganiadau o ddiddordeb drwy anfon e-bost neu drwy'r post at sian.shakespeare@beacons-npa.gov.uk erbyn **17.00 dydd Gwener 15 Chwefror**, gan ddatgan yn glir pa gomisiwn y mae gennych ddiddordeb ynddo. Anfonwch unrhyw ymholiadau i Sian Shakespear, Swyddog Prosiect: Ymgysylltu â'r Cyhoedd drwy e-bost. **Ni fyddwn yn ystyried unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb a gawn ar ôl y dyddiad cau.** Byddwch yn ymwybodol y gallai cyflwyniadau gael eu copïo ar gyfer ein defnydd ni.

NODER: Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi cyhoeddi dau friff artist ar gyfer gosodiadau mewn perthynas â Ffordd Cymru. Mae croeso i chi gyflwyno datganiad o ddiddordeb yn y comisiwn hwn ar gyfer gosodiad mainc ddehongli artistig yng nghilfan Craig y Fro yn unig neu ynghyd â'r comisiwn ar gyfer nodwedd porth.